# Tafarn Sinc

Dyma gywaith cymdeithas,
Ni’r glew, gwnawn ein gorau glas.
Cynnal ein sgwrs a’n canu
Fo’n tasg ar lwyfan y tŷ,
A chynnal ein hardal ni
A wnawn, pob rhan ohoni.

Yr hen oes a’i rhan a aeth
A newydd yw’r gwmniaeth.
Nid y medd na’r gyfeddach
Biau dydd y bywyd iach
A rhoi hyder i’n gwerin
Ydyw gwerth ychydig win.

Wrth y bar waeth eitha beth
Yw’r hwb i drafod rhywbeth.
Mae eto wrth lymeitian
Farn mewn tafarn o flaen tân.
Ymgyrchwn am mai gorchwyl
Yw cadw’i wres, codi’r hwyl.

Nid diferyn yn unig
A’n geilw draw i gôl ei drig.
Nid cwrw’n llwyr ond cariad
At iaith a bro ein treftad.
Gorau blas, cymdeithasu,
Chwarel ein sêl yma sy’.

Cwmnïaeth ffraeth a’i pharhad
Beunydd sydd drwy’n buddsoddiad.
A sail wych i lys y wledd
Yw ein rhaid a’n brwdfrydedd.
Yma o hyd bydded môr
O Gymraeg. Mae ar agor!

Ffein iawn yw’r dablen heno
Ymhlith derinod brith bro.
Cishwch whê rhwle’n y Rhos
A chwrw, minnwch aros.
O wês, wês, mae ‘ma groeso
O gylch y tân, galwch ‘to!

Wyn Owens